


Arolygiaeth Iechyd Cymru

Adroddiad Anabledd Dysgu

2015 - 2016



Mae hwn yn grynodedb Hawdd ei
Ddarllen o'r adroddiad



Nid yw'r adroddiad llawn yn adroddiad
Hawdd ei Ddarllen



Gallwch chi weld yr adroddiad llawn
yma:


hiw.org.uk/reports/natthem/2016



Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd
Cymru yn edrych ar wasanaethau'r
GIG yng Nghymru.



Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn gwirio
a yw gwasanaethau yn dilyn **Safonau
Iechyd a Gofal 2015**.



Mae'r Safonau yn debyg i reolau.



Gallwch chi gael gwybod rhagor am y
Safonau Iechyd a Gofal 2015 yma:

[gov.wales/docs/dhss/publications/150402
standardscy.pdf](http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402/standardscy.pdf)



Nid ydyn nhw'n rhai Hawdd eu Ddarllen



Mae'r Safonau yn helpu i sicrhau ein bod ni'n gwirio gwasanaethau yn y ffordd gywir.



Mae'r safonau yn ein helpu i wybod:



- A yw'r gwasanaeth yn dda neu'n wael?



- Pa mor ddiogel yw'r gwasanaeth?




- A yw'r gwasanaeth yn dda am helpu pobl?

Yn 2015 a 2016, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:



- 7 o ymweliadau wedi'u cynllunio â thimau iechyd anabledd dysgu.



- gwirio timau ym mhob ardal bwrdd iechyd.



- 25 o ymweliadau annisgwyl â gwasanaethau preswyl y GIG ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.



Pethau da a welson ni



Roedd pobl ag anableddau dysgu yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff.



Roedd gan y bobl yn y gwasanaethau aethon ni i ymweld â nhw fynediad da at ofal iechyd.



Roedd pobl yn cael cymorth da i ofalu am eu hiechyd eu hunain.



Roedd pobl wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu.



Roedd pobl yn gallu ymweld â deintydd neu feddyg llygaid.



Gwelson ni waith da yn cael ei wneud gan Nyrsys Cyswllt Iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r nyrsys hyn yn gweithio mewn ysbytai.



Mae gan lawer o bobl basbortau iechyd.



Pethau gwael a welson ni



Nid yw llawer o nyrsys a meddygon yn gwybod llawer am anabledd dysgu.



Mae'n bwysig gwybod os gall rhywun wneud ei benderfyniadau gofal iechyd ei hun. Nid oedd staff iechyd bob amser yn gwirio os gall rhywun wneud ei benderfyniadau ei hun.



Gofynnwyd i rieni a gofalwyr arwyddo ffurflenni caniatâd iddyn nhw.



Rhaid i staff ddiogelu hawliau pobl ag anableddau dysgu. Nid yw Byrddau Iechyd bob amser yn gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.



Nid yw Byrddau Iechyd bob amser yn dda am ofyn i bobl beth yw eu barn nhw am eu gwasanaethau.



Nid yw gwasanaethau preswyl yn dda am ofyn i bobl beth yw eu barn nhw am eu gwasanaeth.



Nid yw byrddau iechyd bob amser yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eiriolwr annibynnol. Mae eiriolwr annibynnol yn bwysig er mwyn:



- helpu pobl i ddweud eu barn am wasanaethau
- helpu pobl i wneud cwyn



Timau iechyd anabledd dysgu cymunedol.



Gwelson ni lawer o bethau da.

Gwelson ni rai pethau y mae angen
iddyn nhw wella.



- Mae pobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gallu siarad



- Mae angen mwy o Therapi Iaith a Lleferydd mewn rhai ardaloedd i helpu pobl i gyfathrebu.



- Mae'r cymorth mae pobl yn ei gael wedi'i gynllunio'n dda. Mae'n cwrdd â'u hanghenion iechyd.



- Roedd problemau gyda'r cynlluniau ariannu Gofal Iechyd Parhaus.



Roedd staff yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl yn dal i gael gofal iechyd da.



- Mae staff iechyd yn dda am ofyn i aelodau eraill o staff i helpu rhywun.



- Mae staff iechyd yn cadw nodiadau da am bobl.



- Ychydig iawn o bobl sydd â'u gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr un ffeil.



- Dywedodd staff iechyd eu bod nhw'n cael cymorth da gan reolwyr.



Gwasanaethau preswyl y GIG



Gwelson ni staff yn rhoi gofal da i bobl.



Ond mae angen i'r gwasanaethau yr edrychon ni arnyn nhw wella.



- Nid yw llawer o gynlluniau staff yn dda. Roedd hyn yn stopio pobl rhag cael cymorth da.



- Mae angen trwsio rhai adeiladau.



- Mae rhai adeiladau'n arogl'i'n ddrwg



- Mae prydau weithiau'n wael mewn rhai gwasanaethau preswyl.

Weithiau, nid oes llawer o ddewis.

Weithiau mae prydau bob amser yr un fath.

Weithiau mae dognau yn rhy fach.



- Nid oes digon o gymhorthion cyfathrebu.



- Nid oedd cofnodion cleifion yn dda iawn.



- Mae llawer o broblemau staff.
Mae'r staff yn absennol llawer oherwydd salwch.



Nid oes digon o gefnogaeth gan nyrsys.

Nid yw rheolwyr yn cael digon o amser i redeg y gwasanaeth.



- Nid oedd gan staff yr hyfforddiant cywir bob amser.

Efallai nad yw staff wedi cael hyfforddiant mewn cadw pobl yn ddiogel.

Efallai nad yw staff wedi cael hyfforddiant am y gyfraith.



- Nid oedd rheolwyr y Bwrdd Iechyd bob amser yn gwybod am y problemau hyn.



Beth mae angen i Fyrddau Iechyd feddwl amdano

Mae angen i Fyrddau Iechyd feddwl am:



- Pam bod ganddyn nhw wasanaethau preswyl GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu?



- A yw pobl yno ar gyfer gofal iechyd yn unig?



Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn meddwl bod angen asesiad newydd ar bawb sy'n byw mewn lleoliadau preswyl y GIG i weld pa ofal a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw.



Rydyn ni'n credu bod angen i Fyrddau Iechyd fod yn well wrth:



- cynllunio ar gyfer y dyfodol
- rhedeg gwasanaethau
- gweithio gyda'i gilydd i redeg gwasanaethau.
- meddwl beth i'w wneud pan mae nyrsys anabledd dysgu yn ymddeol.



Mae angen i fyrddau iechyd a chynghorau lleol gynllunio'n fwy gyda'i gilydd.



Rydyn ni'n credu y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud hyn yn haws.